| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD** | 6 Tachwedd, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella’r Adran |
| **AWDUR** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd. June Jones |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Cyflwyno diweddariad i Aelodau’r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi’i gyflawni yn y maes rwy’n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae hyn yn cynnwys amlinellu’r diweddaraf gyda’r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â’r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma ‘rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd mis Medi, gan gydnabod ei bod yn parhau’n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o’r addewidion sy’n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni. Er hynny, mae’r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac ‘rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a Chyfiawnhad

#### 2.2.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae’r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir ar gyfer prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ble mae’r Adran yn arwain i’w gweld yn Atodiad 1. Gwelir fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau o fewn y Cynllun.

- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir**

Wedi derbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae drwy Llywodraeth Cymru er gwella ansawdd a hygyrchedd mannau/meysydd chwarae ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno’r gwelliannau er budd plant a phobl ifanc y sir. Mae’r Adran wedi bod yn llwyddiannus yn cydweithio gyda Cyngor Dinas Bangor yn ddiweddar ac rydym yn y broses o drosglwyddo maes chwarae Maes Tryfan iddynt.

- **Gweithredu ar risgiau llifogydd**

Mae'r Strategaeth Llifogydd Lleol wedi ei fabwysiadu ac mewn lle. Ers cyflwyno'r Strategaeth i Llywodraeth Cymru yr ydym bellach wedi derbyn eu sylwadau oedd yn benodol o gwmpas defnydd o derminoleg gwahanol. Nid yw hyn yn golygu bod angen unrhyw ddiweddariad pellach i gynnwys ein strategaeth ac rydym bellach yn gweithredu ar ei gynnwys.

- **Cymunedau Glân a Thaclus**

Mae'r system optimeiddio cylchdeithiau yn cael ei gyflwyno yn ardal Arfon fel treial cyn ei ymestyn ar draws y Sir. Bydd y buddsoddiad yma yn arwain at leihau gorwariant presennol y gwasanaeth drwy weld trefn waith effeithiol yn cael ei weithredu. Mae glanhawyr tref wedi eu penodi yng Nghaernarfon a Bangor a byddwn yn ymestyn y trefniadau i dref Pwllheli a Porthmadog ar gyfer gwanwyn 2026. Drwy bwrcasu peiriannau ysgubo ffordd pwrpasol mae'r gwasanaeth wedi moderneiddio ei fflyd glanhau a thrwy hynny yn lleihau unrhyw ddibyniaeth ar hurio cerbydau.

**2.2.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran (Mesurau Perfformiad)**

Mae mesurau perfformiad yr Adran i'w gweld yn Atodiad 2. Fe welir bod yma 29 mesur sydd yn adlewyrchu pwrpas gwasanaethau'r Adran.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac yn dilyn ein cyfarfod fis Hydref eleni adroddir bod 62.1% o'r mesurau yn wyrdd. Mae hyn yn gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau. Fe welwch fod 37.9% wedi eu cofnodi mewn lliw ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Da cofnodi nad oes yr un mesur wedi ei gofnodi yn goch.

Dyma drosolwg ar rai o fesurau'r Adran.

**Mesurau corfforaethol/adrannol** - mae rhain wedi eu hadrodd arnynt am y tro cyntaf eleni sydd yn edrych ar berfformiad yr Adran o ran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Teitlau Mandadol, Hunanasesiad Iaith a chyfradd salwch yr Adran. Dylid nodi bod ein canran ymateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar ddiwedd chwarter 2 yn 96.4% sydd i'w ganmol. Mae gwaith yr adran i annog staff i gwblhau'r teitlau mandadol hefyd i'w ganmol gan bo naid sylweddol wedi bod rhwng y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn. Mae dal waith i'w wneud a'r gobaith ydi bydd y ganran yn parhau i wella dros y chwarter nesaf.

**Cynnal Priffyrdd** – mae ein perfformiad ar ddelio â diffygion yn dda iawn ac yn wir mae'r Gwasanaeth newydd fod drwy archwiliad yswiriant sydd yn edrych ar ein trefniadau delio â hawliadau trydydd parti ac roeddynt yn fodlon iawn gyda'r hyn oedd gennym mewn lle. Mae'r gwasanaeth yn adnabod bod angen adolygu ein trefniadau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gofnodi yn gywir ar ein systemau i sicrhau data dibynadwy ac mae'r gwaith yma wedi ei roi mewn lle.

**Goleuo Stryd** - Mae'r gwasanaeth Goleuo Stryd yn parhau i ymateb i ddiffygion o fewn eu targed amser o 5 diwrnod, ac yn wir yn ymateb iddynt ar gyfartaledd o fewn 2.5 diwrnod. Sut bynnag, os oes nam ar ased sydd yn berchen i'r Grid Cenedlaethol, mae ganddynt 20 diwrnod gwaith i ymateb sydd tu hwnt i'n rheolaeth.

**Edrychiad Stryd** - Hyd at ddiwedd chwarter 2 mae'r Uned Gorfodaeth, o fewn y Gwasanaeth Edrychiad Stryd wedi gweld cynnydd yn y ganran o Hysbysiadau Cosb Benodedig sydd wedi cael eu talu. Mae'r perfformiad ar hyn o bryd yn 77% o'i gymharu â 71% ar gyfer llynedd. Mae unrhyw incwm sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei ail-fuddsoddi i ymateb i broblemau tipio anghyfreithlon, baw cŵn, sbwriel a phosteri anghyfreithlon.

**Toiledau Cyhoeddus** – Mae y gwasanaeth yma wedi bod yn hynod o brysur dros yr haf ac o ganlyniad wedi gweld nifer y cwynion rydym wedi ei dderbyn yn cynyddu ryw ychydig eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Bu i un digwyddiad mewn toiled gael ei adrodd sawl gwaith gan wahanol aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Mae mwyafrif y cwynion am oriau agor.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd -** Mae YGC yn parhau i berfformio yn dda iawn gyda 7 allan o'u 8 mesur yn wyrdd. Mae'r rhaglen waith yn parhau yn iach gyda sawl prosiect llifogydd a peirianyddol ar waith. Mae'r tîm yma yn cynnig ystod o wasanaethau arbenigol ymgynghorol nid yn unig yn Gwynedd ond erbyn hyn ar draws Cymru.

### 2.2.3 Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Ni fu unrhyw archwiliad allanol hyd yma yn 2025/26.

### 2.2.4 Cynlluniau Arbedion a Thoriadau

Cyfanswm cynlluniau Arbedion 2025-26 yw £533,500. Mae'r Adran wedi, neu ar drac, i gyflawni gwerth £212.5k gyda gwerth £321k yn llithro neu bod risg o beidio gallu gwireddu.

## 3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei chreu ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

### Atodiadau

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran